

# CWLWM TWYLL

Gweithgaredd 1 – Ailymweld â'r Stori

*Darllenwch y nofel graffig gyda'r 'Ffilm Fi wyt ti' a cwblhewch y cwis canlynol:*

- 1. Beth oedd y prif reswm fod Sophie yn 'wahanol'?**  
A: Roedd yn cŵl, roedd ganddi gariad hynach, roedd yn gwthio'r ffiniau, nid oedd yn ei thrin fel plentyn bach.
- 2. Y tro cyntaf iddi ysmegu cannabis, tynnwyd llun ohoni ac yr oedd yn amharod i wneud hynny. Pam ydych yn meddwl fod Dean yn mynnu tynnu'r llun?**  
A: Gallai tystiolaeth ohoni'n cymryd cyffuriau anghyfreithlon gael ei defnyddio fel blacmel yn hwyrach ymlaen.
- 3. Pam y rhoddwyd y cyffuriau am ddim i ddechrau?**  
A: I'w denu i gymryd y cyffuriau am y tro cyntaf – byddai'n fwy tebygol o drïo cyffuriau pe byddent yn cael eu cynnig am ddim gan ffrind.
- 4. Pam mor gyflym wnaeth y ddyled ar gyfer y cyffuriau ddwysau?**  
A: Cyflym iawn. Byddai'r ddyled yn amhosibl i'w thalu o'r dechrau. Byddai popeth ar delerau'r gwerthwyr.
- 5. Pam wnaeth hi ddwyn arian gan ei thad?**  
A: Fe wnaeth wrthod pan wnaeth hi ofyn iddo, ac oherwydd ei bod angen yr arian yn fawr – fe wnaeth ei ddwyn beth bynnag.
- 6. Pryd wnaeth pethau ddechrau newid?**  
A: Pan wnaeth Sophie a Dean ddechrau ei thecstio o hyd ac fe wnaeth ddechrau ofni, colli'r ysgol ayyb. Pan wnaeth Sophie sefyll tu allan i'w thŷ a'i bygwth ei bod yn gorfod talu rhyw ffordd arall!
- 7. Sut wnaeth Dean ddweud wrthi y byddai'n gorfod ei dalu i gyd yn ôl?**  
A: Byddai'n gorfod dosbarthu cyffuriau, bod yn gyfeillgar gyda'i ffrindiau. Byddai'n derbyn hen ffôn a 'phecynnau' cyffuriau i'w dosbarthu...
- 8. Pam y rhoddwyd cylllell iddi?**  
A: I'w gwarchod neu o bosibl fel bygythiad...
- 9. Ar ei waethaf, beth oedd y camfanteisio troseddol yn ei gynnwys?**  
A: Byddai'n cyfarfod pobl mewn gwahanol leoliadau, gwahanol drefi a phentrefi, ddydd a nos i ddosbarthu cyffuriau. Nid oedd byth yn gwybod lle'r oedd hi rhagor. Roedd yn ddryslyd ac yn mynd i fwy o ddyled. Roedd yn gwybod na fyddai byth yn gallu talu'r ddyled gan ei bod o hyd yn codi. Roedd Dean a'i gyfeillion yn rheoli bob agwedd o'i bywyd yn llwyr. Cafodd ei lladrata a bob tro roedd hyn yn digwydd, roedd pethau'n gwaethygu!
- 10. Pwy ydych yn feddwl oedd yn gyfrifol am y lladradau?**  
A: Cysylltiadau Dean. Dyma sut maent yn cael plant a phobl ifanc i fod yn fwy dyledus iddynt.
- 11. Pryd wnaeth pethau ddechrau newid er gwell?**  
A: Y diwrnod y cafodd ei hymosod yn y fan wen. Dyna'r diwrnod y cafodd gymorth. Pan ddechreuodd dweud wrth bobl y gwir ynghylch yr hyn oedd yn digwydd iddi go iawn.
- 12. Beth mae'n ei olygu drwy ddweud 'Fi wyt ti...'?**  
A: Gallai fod yn un ohonom ni...yr eneth rydych wedi'i hadnabod ers yr ysgol gynradd, y bachgen sy'n dda mewn chwaraeon, clown y dosbarth, a'r un distaw yn y gornel, yr un nad ydych byth yn siarad â nhw a'ch ffrind gorau...